# ATODIAD A
# Blaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028
## Cynnydd ar gerrig milltir 2025-26

**Gwynedd Glyd:**

- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

**Gwynedd Werdd:**

- Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Gwastraff ac Ailgylchu
- Teithio Llesol
- Trafnidiaeth Gyhoeddus

AMGYLCHEDD

# **Gwynedd Glyd:** Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau

## **Prosiect:** Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Mae'r nifer sylweddol o dai yng Ngwynedd sy'n cael eu defnyddio fel ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr yn cael effaith andwyol ar allu pobl y sir i gael mynediad at gartrefi yn eu cymunedau.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno ymchwil manwl i'r Llywodraeth yn amlygu'r angen am weithredu ym meysydd cynllunio, trethiant a thrwyddedu er mwyn cael gwell rheolaeth o'r sefyllfa. Yn dilyn cyhoeddiadau y Llywodraeth, gan gynnwys sefydlu Peilot Dwyfor sy'n ymrwymo i gyflwyno camau i daclo problemau yn y maes, mae'r Cyngor yn gweithredu newidiadau deddfwriaethol ac yn gosod premiwm treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag bob blwyddyn ar gyfradd briodol i ymateb i'r sefyllfa ar y pryd.



# **Prosiect:** Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

| Cerrig milltir 2025/6 | Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma | Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau |
|---|---|---|
| **1.** Yn dilyn cynnal cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar gyflwyno Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) – Rheoli'r Defnydd o Dai fel Cartrefi Gwyliau ddaeth i ben Ebrill 7fed 2025, bydd yr holl sylwadau dderbyniwyd yn cael eu hystyried a'r angen i wneud unrhyw newidiadau a'i peidio i'r Canllaw. | **1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus a ddaeth i ben ar 7 Ebrill. Yn dilyn hynny, fe gyflwynwyd rhai mân diwygiadau i'r CCA ar gyfer ystyriaeth Cabinet y Cyngor. | ✓ Ydi - wedi cwblhau |
| **2.** Cyflwyno adroddiad i Gabinet y Cyngor (Mehefin 2025) yn gofyn i'r Aelodau ystyried y sylwadau o'r ymgynghori a'r ymateb iddynt ar yr CCA uchod, ac yn gofyn am fabwysiadu'r Canllaw fel ei fod yn ystyriaeth wedyn wrth ddelio â cheisiadau cynllunio. | **2.** Adroddiad wedi ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar 10 Mehefin, a mabwysiadwyd CCA: Rheoli'r Defnydd o Dai fel Llety Gwyliau (Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr) i'w ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio yn Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Yn sgil penderfyniad y Barnwr (6 Chwefror 2026) i wrthod caniatáu i'r Cyngor apelio, fe ddiddymwyd y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ac yn sgil hynny nid yw'r CCA bellach yn weithredol. | ✓ Ydi - wedi cwblhau (ond ddim bellach yn weithredol) |
| **3.** Parhau gyda fframwaith fonitro sy'n ystyried sgil effaith cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. | **3.** Yn sgil penderfyniad diweddar y Llys (gw uchod) sydd wedi diddymu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, bydd yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod cyfnod gweithredu Erthygl 4 yn cael ei ystyried os oes bwriad yn y dyfodol i ail-gyflwyno. | Parhaus |
| **4.** O ran y Premiwm Treth Cyngor:<br>· Canlyniadau gwaith ymchwil i effaith y Premiwm o ran unrhyw newid defnydd eiddo, wedi'i adrodd i'r Cyngor ar Rhagfyr 2il 2024, a benderfynodd gadw lefel y Premiwm heb ei newid (2025/26)<br>· Y Cabinet i ystyried ym Medi 2025 os yw am gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynyddu lefel y Premiwm ar gyfer 2026/27 ar gyfer grwpiau penodol o eiddo<br>· Cynnal ymgynghoriad ar newid lefel y Premiwm – os bydd un – (Medi-Hydref 2025)<br>· Y Cyngor Llawn i ystyried lefel y Premiwm ar gyfer 2026/27 yn Rhagfyr 2025 (boed newid yn cael ei argymell neu beidio) | **4**. Diweddariad gan yr Adran Gyllid:<br><br>Canlyniadau gwaith ymchwil pellach i effaith y wedi'i adrodd i'r Cyngor ar 4 Rhagfyr 2025, a benderfynodd gadw lefel y Premiwm heb ei newid ar gyfer ail gartrefi, ond i gynyddu'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor i 150% yn 2026/27. | ✓ |
| **5.** Ystyried ac ymateb i unrhyw ddatblygiadau gan Lywodraeth Cymru o ran sgil-effaith gofynion gorfodaeth/rheoleiddio posibl cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau. | **5.** Mae'r Senedd wedi pasio deddfwriaeth newydd i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru. Bydd y cynllun yn berthnasol i ddarparwyr llety hunan-ddarpar, a bydd angen dangos bod eu heiddo yn bodloni safonau diogelwch ac ansawdd.<br>Mae 2 elfen i'r newid:<br>• Cofrestru - gyda'r ffenestr i gofrestru yn dechrau yn Hydref 2026 a fydd yn cael ei weinyddu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru.<br>• Trwyddedu - disgwylir rhagor o fanylion am yr elfen yma, ac mae'r Cyngor eisoes wedi amlygu mewn ymgynghoriadau ar y mater y byddai goblygiadau ac adnoddau sylweddol tebygol i gyfeiriad Awdurdodau Lleol os mai'r bwriad fydd gweithredu hyn yn lleol. | Parhaus |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**Prosiect:**
Cynllun Datblygu Lleol newydd



Byddwn yn llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd fydd yn cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros y 15 mlynedd nesaf.

# **Prosiect:** Cynllun Datblygu Lleol newydd

| Cerrig milltir 2025/6 | Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma | Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau |
|---|---|---|
| **1.** Parhau i weithredu ar y cam cyn-adneuo ar gyfer y Cynllun newydd, fydd yn cynnwys:<br><br>**i)** datblygu'r opsiynau strategol (yn dilyn o'r prif faterion, gweledigaeth ac amcanion strategol sydd wedi'u hadnabod);<br><br>**ii)** paratoi papurau cefndir/testun penodol, asesiadau effaith. | Gwaith yn parhau i weithredu'r cam cyn-adneuo:<br><br>**i)** Datblygu'r opsiynau strategol ar waith. Y gwaith yn cynnwys rhoi ystyriaeth i bapur tystiolaeth demograffeg Gwynedd.<br><br>**ii)** Gwaith ymchwil wedi ei gomisiynu ar gyfer yr elfen yma. Rhagamcanion aelwydydd (sail 2022) wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru diwedd Tachwedd 2025, ac felly bydd angen rhoi ystyriaeth i hyn wrth ddatblygu'r opsiynau strategol.<br><br>**iii)** Cynnal arolwg anffurfiol (Chwefror a Mawrth 2026) i ganfod barn ar y materion sy'n bwysig a pherthnasol y gall y CDLl eu dylanwadu. | Agweddau cam cyn adneuo i'w cwblhau'n rhannol eleni, ac i barhau yn 2026/7. |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

## **Prosiect:** Gwastraff ac Ailgylchu

Byddwn yn paratoi strategaeth gwastraff ac ailgylchu newydd er mwyn mynd i'r afael â chynyddu'r lefel ailgylchu yn y sir i gwrdd â'r targed cenedlaethol o 70%.

Byddwn yn asesu pa mor effeithiol yw'n trefniadau casglu sbwriel presennol o ran hybu ailgylchu (o ddrws i ddrws ac yn ein canolfannau), ac yn cyflwyno trefniadau newydd lle bo angen.



# **Prosiect:** Gwastraff ac Ailgylchu

| Cerrig milltir 2025/6 | Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma | Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau |
|---|---|---|
| **1.** Cyflwyno drafft o Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu i'r Cabinet yn gofyn am yr hawl i gynnal ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus. | **1.** Adroddiad wedi ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar **10 Mehefin 2025**, gyda chymeradwyaeth i'r Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu drafft fynd i ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn derbyn adborth gan drigolion Gwynedd. | ✔ Ydi - wedi cwblhau |
| **2.** Cynnal ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar y Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu gan ystyried y canfyddiadau. | **2.** Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Strategaeth am dros saith wythnos, a ddaeth i ben ar **30 Tachwedd 2025**. | ✔ Ydi - wedi cwblhau |
| **3.** Adrodd yn ôl i'r Cabinet, gan ystyried yr adborth o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, a gofyn am gefnogaeth i fabwysiadu'r Strategaeth. | **3.** Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi'u dadansoddi ac wedi'u hymgorffori yn y Strategaeth. Oherwydd y cyfnod cyn etholiad, mae cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet wedi'i ohirio. Disgwylir bellach i hyn ddigwydd yn fuan yn 2026/27. | Rhannol - cwblhau yn fuan yn 2026/27 |

**Parhad ar y dudalen nesaf**

# **Prosiect:** Gwastraff ac Ailgylchu (parhad)

| Cerrig milltir 2025/6 | Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma | Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau |
|---|---|---|
| **4.**Yn deillio o'r Strategaeth, byddwn yn<br>**i)** Paratoi opsiynau uwchraddio asedau trin gwastraff i ddatblygu safleoedd modern ac addas i bwrpas fydd yn cynorthwyo i brosesu mwy o wastraff ein hunain a gwella ansawdd y cynnyrch;<br>**ii)** Cynnal gwaith newid ymddygiad yn seiliedig ar ddata i gefnogi'r Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu. Fe all hyn olygu y byddwn yn defnyddio pwerau gorfodi i ategu unrhyw ddiffyg ymrwymiad mewn rhai achosion;<br>**iii)** Fel rhan o waith ehangach o adolygu trefniadau casglu, byddwn yn treialu'r defnydd o sachau ar gyfer casgliadau ailgylchu mewn rhai ardaloedd ac yn adolygu llwyddiant er mwyn ystyried addasrwydd ymestyn i ardaloedd eraill yn y sir;<br>**iv)** Fel rhan o waith adolygu trefniadau gwastraff masnachol byddwn yn buddsoddi mewn system bwrpasol i weinyddu cytundebau a chasgliadau, a byddwn yn creu porth cwsmer perthnasol i fusnesau allu cysylltu ac e-fasnachu efo ni. | **4.** Crynodeb isod:<br>**i)** Mae'r gwaith cychwynnol bellach wedi'i gwblhau. Cam nesaf y broses yw mireinio'r opsiynau a datblygu cynllun cynhwysfawr sy'n fforddiadwy ac yn ymarferol. Nod hyn yw galluogi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol, er mwyn hwyluso gweithredu'r prosiect.<br>**ii)** Mae'r gwaith o ysgogi newid ymddygiadol yn parhau yn y cefndir, gyda nifer o ymgyrchoedd penodol wedi'u trefnu. Mae pob aelwyd yng Ngwynedd bellach wedi derbyn gwybodaeth drwy'r post am y gwasanaethau ailgylchu, ac rydym wedi cyflwyno cais am brentis i ymuno â'r tîm codi ymwybyddiaeth, er mwyn rhannu gwybodaeth a marchnata'r gwasanaeth ailgylchu yn ddigidol.<br>**iii)** Treial sachau hesian wedi ei beilota mewn 3 cylchdaith yn ardal Arfon. Canlyniadau wedi eu hadrodd i'r Fforymau Ardal yn ystod yr hydref. Ystyriaeth yn cael ei roi i rai addasiadau ymarferol i hwyluso treialu mewn rhannau eraill o'r sir yn 2026/27.<br>**iv)** Mae system Bartec bellach yn cael ei defnyddio gan y criwiau casglu ac ar gyfer gweinyddu cytundebau. Mae rhywfaint o oedi wedi codi o ran y broses filio. Y cam nesaf yn y prosiect fydd datblygu porth i gwsmeriaid. | ✔<br>Parhaus |
| **5.** Parhau gyda'r gwaith o reoli lefelau gorwariant a gwireddu cynllunio arbedion. Byddwn hefyd yn rhoi strwythur addas i bwrpas mewn lle er mwyn sicrhau ein bod mewn lle cryf i allu wynebu yr heriau a newidiadau yn effeithlon. Fel rhan o gynlluniau arbedion ehangach, nyddwn yn cydweithio gyda Wrap Cymru i fodelu opsiynau amlder casgliadau gweddilliol. | **5.** Mae'r gwaith o gryfhau'r trefniadau rheoli cyllidebau yn parhau, gyda chyfarfodydd misol bellach wedi'u sefydlu rhwng rheolwyr a'r Adran Gyllid. Mae'r rhan gyntaf o'r ailstrwythuro wedi'i chwblhau, ac mae'r ail gam yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae modelu cychwynnol wedi'i gynnal i archwilio opsiynau ar gyfer lleihau amlder casgliadau neu leihau maint y biniau yng Ngwynedd, a'r cam nesaf fydd cynllunio manylach gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r Strategaeth. Byddwn wedyn yn cyflwyno opsiynau i'r Cabinet. | ✔<br>Parhaus |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

## **Prosiect:** Teithio Llesol

Mae teithio llesol yn anelu i sicrhau fod cerdded a beicio yn dod y dewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd, er mwyn gwella iechyd personol, ansawdd yr aer ac yn gwneud lleoedd yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt.

Byddwn yn gwella llwybrau cerdded a beicio presennol y sir, a chyflwyno llwybrau teithio llesol o'r newydd er mwyn hwyluso mwy o gerdded a beicioyn ein cymunedau.





# **Prosiect:** Teithio Llesol

| **Cerrig milltir 2025/6** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau** |
|---|---|---|
| **1.** Yn dilyn cyflwyno cynlluniau manwl i Lywodraeth Cymru am gynlluniau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, gweithredu ar y cynlluniau llwyddiannus canlynol:<br>**a)** Bangor – Gwedd 3 Ffordd Penrhos/Penchwintan (Teithio Llesol);<br>**b)** Ysgol Foel Gron, Mynytho (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau);<br>**c)** Cyflawni cynlluniau gyda'r £500,000 o gronfa cyfalaf craidd Teithio Llesol. | **1.** Ers derbyn cadarnhad o lefel y gefnogaeth ariannol sydd wedi ei glustnodi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill, rydym wedi bod yn datblygu'r cynlluniau manwl isod ar gyfer eu gwireddu yn ystod 2025/6:<br><br>**a)** Mae gwaith adeiladu ar wedd 3 wedi ei gwblhau (diwedd Ionawr 2026), gan greu llwybr aml-ddefnydd ar gyfer beicwyr a cherddwyr rhwng Ysbyty Gwynedd a Threborth. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gosod croesfan newydd o flaen Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd.<br>**b)** Gwaith yn dod i ben ar lwybrau cerdded a chroesfannau ar gyfer yr ysgol, ynghyd a llwybr troed gwell yng nghanol pentref Mynytho a chroesfan i gysylltu efo'r siop/post.<br>**c)** Chwilog i Afonwen: Gwaith ffisegol ar y wedd gyntaf (Afonwen i'r golchdy) wedi ei gwblhau.<br>-Tywyn i Aberdyfi: Yn prynu darn o dir ar hyn o bryd gyda chadarnhad fod cyllid angenrheidiol ar gyfer gwaith ar y trywydd ar gyfer 2026/7 a 2027/8.<br>-Gwaith dichonoldeb a dylunio yn digwydd ar gyfres o gynlluniau eraill yn cynnwys, Llanberis-Caernarfon, Llanystumdwy-Cricieth, Bethel-Caernarfon. | ✓ |
| **2.** Cwblhau gwelliannau i Lôn Las Ogwen fel rhan o gynllun gyllidwyd trwy gronfa ffyniant Bro i gryfhau cysylltiadau teithio lleol yn Nyffryn Ogwen. | **2.** Yn dilyn cwblhau gwaith ym mis Gorffennaf 2025 ar wedd gyntaf y cynllun, a oedd yn cyflwyno nifer o welliannau fel gosod tanffordd gwartheg i hwyluso defnydd o'r llwybr o gyfeiriad Tregarth am Fethesda ar gyfer cerddwyr a beicwyr, mae pont droed aml-ddefnydd newydd wedi ei gosod dros Afon Ogwen. Bydd y Bont Sarnau newydd yn gwella mynediad i ddefnyddwyr ar hyd y Lôn Las yn y rhan yma o Ddyffryn Ogwen gan wella cysylltiad gyda llwybrau i gyrraedd Llyn Ogwen ac atyniad Zip World. Oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol o ran pryd gellir cwblhau gwaith yn yr afon, bydd y gwaith i dynnu'r hen bont ac agor y bont newydd yn digwydd ym mis Mai 2026. | ✓ |

**Parhad ar y dudalen nesaf**

# **Prosiect:** Teithio Llesol (parhad)

| Cerrig milltir 2025/6 | Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma | Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau |
|---|---|---|
| **3.** Monitro datblygiadau a gweithredu ar unrhyw newidiadau posibl yn seiliedig ar fabwysiadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (yn ystod 2025/26). | **3.** Cyflwynwyd ymateb y Cyngor i ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – gyda'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ar 14 Ebrill. Cymeradwywyd y fersiwn derfynol honno o'r Cynllun gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 28 Hydref 2025, gyda dyraniad ariannol arfaethedig y Cynghorau wedi ei gyflwyno ar gyfer 2026/7. Swyddogion yn parhau i ddarparu gwybodaeth er mwyn sicrhau'r dyraniad yn llawn. | ✓ Parhaus |
| **4.** Parhau i hyrwyddo llwybrau i drigolion ac ymwelwyr i'r sir am y cyfleoedd cerdded a beicio ar rwydwaith teithio llesol Gwynedd. | **4.** Gwaith yn digwydd ar sail parhaus i hyrwyddo datblygiadau sy'n hwyluso cerdded, olwynio a beicio ar rwydweithiau teithio llesol yn y sir, yn cynnwys datganiadau a negeseuon rhagweithiol am y cyllid sicrhawyd a chynnydd ar brosiectau wrth iddynt ddod yn weithredol.<br>Yn ogystal, rydym wedi creu pecynnau gwybodaeth ar gyfer Penaethiaid ysgolion, yn cynnwys canllawiau a gwybodaeth i rannu gyda rhieni am:<br>◦ Ddiogelwch ffyrdd<br>◦ Teithio Llesol<br>◦ Trafnidiaeth cyhoeddus<br>◦ Sut i greu Bysus Cerdded a Beicio<br>◦ Mynediad i hyfforddiant diogelwch ffyrdd<br>◦ Rheolau Teithio ar Fws a Trên i'r ysgol ayyb<br>Fe fydd yr uchod yn cael ei dreialu yn ysgolion y Garnedd, Treferthyr a Godre'r Berwyn.<br><br>Mapiau teithio llesol i'r ysgol mewn lleoliadau penodol lle mae gwelliannau diweddar wedi eu cyflawni (gweler uchod).<br><br>Yn ystod 2026, bydd proses ymgynghori pellach yn ennyn barn trigolion ar y llwybrau teithio llesol presennol yn ogystal â chynlluniau teithio llesol ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn Rhagfyr 2026. | ✓ Parhaus |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

## **Prosiect:** Trafnidiaeth Gyhoeddus

Byddwn yn adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos. Fel rhan o'r cynllun yma, byddwn hefyd yn cyflwyno bysiau trydan newydd.






# **Prosiect:** Trafnidiaeth Gyhoeddus

| **Cerrig milltir 2025/6** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau / Ar drac i'w cwblhau** |
|---|---|---|
| **1.** Cynnal ac adolygu'r rhwydwaith ar sail profiad ac unrhyw newidiadau posibl sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. | **1.** Rhwydwaith newydd yn ymsefydlu gydag adborth a nifer teithwyr cadarnhaol.<br>Parhau i chwilio man-welliannau/ addasiadau lle mae hynny'n bosib o fewn yr adnoddau sydd ar gael. | ✓<br>Parhaus |
| **2.** Parhau i beilota a monitro defnydd gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa, G23 rhwng Y Bermo a Phorthmadog a Fflecsi yn ne Meirionnydd. | **2.** Y gwasanaethau ar eu newydd wedd yn ymsefydlu gydag adborth a nifer teithwyr cadarnhaol – 563,783 o siwrneiau yn 2025/6 sy'n gynnydd o 6.6% ar y flwyddyn flaenorol. Lle mae'n ymarferol, rydym yn parhau i chwilio am welliannau/ addasiadau o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Trefniadau ar gyfer haf 2026 wedi eu cytuno gyda rhanddeiliaid a'r gwasanaethau wedi eu cofrestru gyda'r amserlen haf wedi cychwyn o 28 Mawrth cyn cyfnod gwyliau'r Pasg. | ✓ |
| **3.** Gweithredu gwelliannau gwerth £500,000 i aros fannau bysiau. | **3.** Gwaith wedi ei gwblhau yn unol â'r rhaglen i gyflwyno gwelliannau i aros-fannau mewn lleoliadau'n y sir – 3 lleoliad yn Arfon, 3 yn Nwyfor a 3 ym Meirionnydd. Cynlluniau ar gyfer 2026/7 wedi eu cynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gyda rhagor o welliannau i'w cyflwyno i aros-fannau yn ystod 2026/7. | ✓ |
| **4.** Monitro datblygiadau a gweithredu ar unrhyw newidiadau posibl yn seiliedig ar fabwysiadu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (yn ystod 2025/26). | **4.** Cyflwynwyd ymateb y Cyngor i ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – gyda'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ar 14 Ebrill. Cafodd y Cynllun ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd Cabinet ar 28 Hydref 2025, gyda dyraniad ariannol y Cynghorau wedi ei gyflwyno ar gyfer 2026/7. Byddwn yn symud ymlaen i weithredu yn unol â'r cyllid sydd wedi ei ddyrannu ar gyfer 2026/7. | ✓ |
| **5.** Parhau i adolygu y darlun ariannol o ran y gost o ddarparu'r rhwydwaith a'r ffynonellau amrywiol. | **5.** Cydweithio agos yn parhau rhwng swyddogion y Gwasanaeth Trafnidiaeth a'r Adran Gyllid i fonitro y sefyllfa ariannol ac ymyrryd yn ôl yr angen.<br>Gwaith penodol nawr yn cael ei ymgymryd i adnabod lefel yr adnoddau mae Cyngor Gwynedd yn ei fuddsoddi yn cynnal y rhwydwaith bysiau lleol. Mae hyn yng nghyd-destun ac fel gwaith paratoadol ar gyfer y system masnachfraint bysiau newydd. | ✓ |